| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **19 Ebrill, 2018** |
| **Teitl** | **Treial Gorfodaeth Stryd** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Pwrpas** | **I ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu ar y mater ac i dderbyn argymhelliad ar y ffordd ymlaen.** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ar 22 Medi, 2016 bu i'r Pwyllgor Craffu dderbyn argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd. Un o'r argymhellion hyn oedd y *'dylai'r Cyngor edrych ar allanoli elfennau o'i waith gorfodi i ategu gwaith y tîm mewnol. Byddai'r gwaith hynny yn canolbwyntio ar orfodaeth a dirwyo sydyn (FPNs) ar sail dim cost i'r Cyngor (dylid treialu hyn am gyfnod o 12 mis yn y lle cyntaf gan ei adolygu ar ôl hynny)'*.

1.2 Yn unol ar argymhelliad hwn, comisiynwyd cwmni allanol i gynnal treial gorfodaeth stryd am flwyddyn. Bu i'r treial gychwyn mis Chwefror eleni ond wedi ychydig ddiwrnodau cytunwyd i gais y cwmni i ddod a'r treial i ben.

1.3 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas diweddaru'r Pwyllgor Craffu o'r sefyllfa ac er mwyn derbyn argymhelliad ar y camau nesaf i'w cymeryd.

## 2. YSTYRIAETHAU

2.1 Sail argymhelliad y Pwyllgor Craffu i gynnal treial oedd bod arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2016, yn dangos bod trigolion yn awyddus i'r Cyngor fod llawer mwy cadarn mewn taclo pobl sy'n gollwng sbwriel ar y stryd neu'n gadael i'w cŵn faeddu llwybrau a phalmentydd. Yn yr arolwg, roedd 55% o'r trigolion gymerodd rhan yn yr ymgynghoriad yn awyddus i'r Cyngor ddefnyddio cwmni allanol masnachol i gyflawni'r gwaith gorfodi i'r perwyl.

2.2 Yn dilyn ymarferiad cyhoeddus Her Gwynedd, cwtogwyd ar y nifer o staff yn yr Uned Gorfodaeth Stryd o 7 i 5 i gyflawni arbediad o £64,500 y flwyddyn. 'Roedd hyn, yn ogystal, yn sail i'r Pwyllgor Craffu ystyried defnydd o gwmni allanol i gynorthwyo yn y gwaith gorfodaeth a hynny heb gost i'r Cyngor.

## 3. OPSIYNAU POSIB

3.1 Mae'r canlynol yn opsiynau posib i'w ystyried yn dilyn aflwyddiant ceisio cynnal treial gydag un cwmni yn ddiweddar, sef:

(i) Ceisio cwmni allanol masnachol arall i gynnal treial yn y Sir.

*Mae o leiaf 2 gwmni arall yn cynnig y ddarpariaeth er nad ydynt ar hyn o bryd yn weithredol yn y rhan yma o Gymru.*

(ii) Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella ar y ddarpariaeth.

*Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn ystyried y ffordd ymlaen gyda gorfodaeth stryd ac mae cyfle efallai i ystyried darpariaeth ar lefel rhanbarthol.*

(iii) Ail ystyried y lefelau staffio presennol yn yr Uned Gorfodaeth Stryd.

*Tebygol bydd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer cynyddu'r adnoddau.*

(iv) Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff o adrannau eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd.

*Mae hyn eisioes yn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu.*

(v) Ceisio cymorth Heddlu Gogledd Cymru mewn gorfodaeth ar y stryd.

*Mae hyn wedi ei geisio ar sawl achlysur e.e. sefydlu protocol i'r pwrpas, ac mae'n ddarostyngedig i flaenoriaethau ac adnoddau'r Heddlu.*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei argymhelliad ar y ffordd ymlaen er mwyn ceisio gwella'r ddarpariaeth i bwrpas sicrhau glendid ac edrychiad ein strydoedd.